# PECYN RECRIWTIO YMDDIRIEDOLWYR

Medi 2026

Sefydliad Cymunedol Cymru
Community Foundation Wales



# CROESO

## Neges gan ein Cadeirydd

**Mae haelioni wedi bod yn rhan o stori Cymru erioed.**

Ar draws ein cymunedau, mae pobl bob amser wedi dod o hyd i ffyrdd o gynorthwyo ei gilydd – rhoi o'u hamser, rhannu adnoddau a buddsoddi yn y bobl a'r lleoedd sy'n bwysig iddyn nhw. Yn Sefydliad Cymunedol Cymru, rydyn ni'n adeiladu ar y traddodiad hwnnw, gan greu daioni drwy haelioni.

Fel Cadeirydd, rydw i'n falch o weithio ochr yn ochr â Bwrdd Ymddiriedolwyr sy'n credu yng ngrym haelioni i greu cyfleoedd a chryfhau Cymru am genedlaethau i ddod. Mae'r Byrddau cryfaf yn adlewyrchu amrywiaeth o brofiadau, safbwyntiau a chefndiroedd, a gyda'n gilydd, rydyn ni'n helpu i sicrhau bod haelioni'n cyd-fynd â gwybodaeth leol, arbenigedd dibynadwy a llywodraethu da, fel bod cyllid yn cyrraedd y bobl a'r mannau lle gall gael yr effaith fwyaf.

Mae bod yn ymddiriedolwr yn fraint ac yn gyfrifoldeb. Byddwch yn helpu i arwain dyfodol Sefydliad Cymunedol Cymru, gan ddod â'ch profiad, eich dealltwriaeth a'ch persbectif i arwain ein gwaith a sicrhau ein bod ni'n parhau i ymateb i anghenion a dyheadau cymunedau ar lawr gwlad ledled Cymru.

Fel aelod o UK Community Foundations, rydyn ni hefyd yn rhan o rwydwaith dibynadwy ledled y Deyrnas Unedig, sy'n rhannu gwybodaeth ac arferion gorau ar yr un pryd â hyrwyddo haelioni yma yng Nghymru.

Rydyn ni'n chwilio am bobl sy'n cynnig safbwyntiau ffres, dull cydweithredol ac ymrwymiad gwirioneddol i helpu Sefydliad Cymunedol Cymru i dyfu a ffynnu. P'un a ydych chi wedi bod yn ymddiriedolwr o'r blaen neu hon fyddai eich rôl gyntaf ar Fwrdd, rydyn ni'n croesawu her adeiladol, chwilfrydedd a pharodrwydd i gydweithio.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno â Sefydliad Cymunedol Cymru. Gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i gynyddu haelioni ledled Cymru, gan feithrin partneriaethau newydd a chreu newid parhaol am genedlaethau i ddod.

Diolch am ystyried dod yn un o'n Hymddiriedolwyr. Gobeithio bod y pecyn hwn yn rhoi syniad i chi o bwy ydyn ni, dros beth rydyn ni'n sefyll a'r gwahaniaeth gallwn ni ei wneud gyda'n gilydd.

*Judi Rhys MBE*
*Cadeirydd, Sefydliad Cymunedol Cymru*

# AMDANOM NI

## Mae Sefydliad Cymunedol Cymru yn creu daioni drwy haelioni.

Rydyn ni'n bont gadarn rhwng pobl sy'n dymuno rhoi a'r cymunedau sy'n bwysig iddyn nhw. Mae ein gwaith yn adeiladu ar hanes hir o roi yng Nghymru, gan ddefnyddio ein harbenigedd mewn haelioni cymunedol i gyfeirio cyllid mewn ffordd a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf.

Rydyn ni'n gweithio'n ddwyieithog ar draws y wlad ac yn deall y cryfderau, yr heriau a'r cyfleoedd mewn gwahanol gymunedau. Oherwydd bod yr wybodaeth honno gennym ni, nid effaith fyrhoedlog mae cyllid yn ei chael; mae'n parhau i wneud gwahaniaeth am amser maith.

Mae gennym brofiad ers tro byd o alluogi haelioni ledled Cymru. Rydyn ni'n delio â'r diwydrwydd dyladwy, y broses o roi grantiau a'r gwaith gweinyddol, gan wneud yn siŵr bod arian yn cael ei fuddsoddi'n gyfrifol i gynyddu'r effaith.

Rydyn ni'n credu bod angen cymorth hyblyg a hirdymor i greu cymunedau cryf. Dyna pam rydyn ni'n gweithio gyda rhoddwyr i'w galluogi i roi mewn ffyrdd sy'n helpu sefydliadau ac unigolion ar lawr gwlad i gynllunio ymlaen llaw, ac i ymateb i heriau lleol.

Rydyn ni'n delio â chyllid yn deg ac yn dryloyw, gan ei gwneud hi'n hawdd i bobl wneud cais a chael gafael ar gymorth. Rydyn ni'n gweithio'n agored gyda'n partneriaid, gan rannu dealltwriaeth a dysgu i gryfhau cymunedau o Fôn i Fynwy.



# EIN GWERTHOEDD

Rydyn ni'n sefydliad sy'n cael ei arwain gan werthoedd. Datblygwyd ein gwerthoedd gan ein tîm. Maen nhw'n siapio sut rydyn ni'n gweithio ac maen nhw wedi eu gwreiddio ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.

## Dibynadwy

Rydyn ni'n delio â pherthnasoedd, adnoddau a phenderfyniadau yn onest, yn foesol, ac yn dryloyw.

- Rydyn ni'n atebol am ein penderfyniadau
- Rydyn ni'n trin arian a disgwyliadau pobl yn ofalus
- Rydyn ni'n cyflawni ein hymrwymiadau
- Rydyn ni'n gyfrifol ac yn gweithredu er budd gorau cymunedau a rhoddwyr

## Gofalgar

Rydyn ni'n rhoi pobl yn gyntaf, gan wrando ar ein gilydd ac ar y bobl sy'n gweithio gyda ni. Rydyn ni'n gweithredu gyda charedigrwydd, gan siapio ein gwaith ar sail anghenion lleol a phrofiadau bywyd.

- Rydyn ni'n gwrando cyn gweithredu
- Rydyn ni'n parchu gwybodaeth a chyd-destun lleol
- Rydyn ni'n trin pobl a chymunedau gyda pharch
- Rydyn ni'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn gweithio mewn ffordd gynhwysol a chroesawgar

## Uchelgeisiol

Rydyn ni eisiau'r gorau i Gymru, i'n sefydliad ac i'n hunain, gan gryfhau haelioni i gynyddu'r effaith i gymunedau.

- Rydyn ni'n edrych y tu hwnt i'r atebion cyflym a syml, gan fabwysiadu agwedd strategol er mwyn datblygu ein heffaith
- Rydyn ni'n mynd ati i gryfhau a thyfu haelioni yng Nghymru
- Rydyn ni'n herio ein hunain ac ein gilydd i wella ein gwaith
- Rydyn ni'n ymfalchïo mewn sicrhau canlyniadau da a chynnal safonau uchel

## Cydweithredol

Rydyn ni'n gweithio'n agored ac mewn partneriaeth, gan rannu gwybodaeth a meithrin cysylltiadau sy'n cryfhau haelioni ledled Cymru.

- Rydyn ni'n rhannu arbenigedd
- Rydyn ni'n rhoi cyfle i bobl ddweud eu dweud
- Rydyn ni'n bont gadarn rhwng rhoddwyr, partneriaid a chymunedau ledled Cymru
- Rydyn ni'n cysylltu haelioni ag anghenion cymunedol

# SUT BETH YW BOD YN YMDDIRIEDOLWR



"

Fe wnes i ymuno â Sefydliad Cymunedol Cymru oherwydd fy mod i'n teimlo'n angerddol am y gymuned ac am Gymru, ac oherwydd fy mod i'n malio am bobl sydd ddim yn cael bargen deg. Mae'r ffaith bod pobl a busnesau wedi ymrwymo i sicrhau tegwch drwy eu haelioni yn dangos y ddynoliaeth ar ei gorau ac rydw i'n teimlo'n freintiedig o'i weld ar waith.

Rydw i wedi dysgu llawer yn fy rôl gyntaf fel Ymddiriedolwr, yn enwedig am lywodraethu cryf ac amrywiaeth cymunedau Cymru a'r hyn sy'n eu huno. Mae tîm Sefydliad Cymunedol Cymru yn dda iawn am roi gwybod i ni am ei waith heb ymrwymiad trwm o ran amser, drwy gymryd rhan mewn paneli grantiau ac ymweliadau â phrosiectau.

Mae llawer o waith yr Ymddiriedolwyr yn cael ei wneud drwy bwyllgorau, ac rydw i'n cadeirio'r Pwyllgor Blaengynllunio a Datblygu - sy'n cynnal fy angen am ddull gweithredu strategol ym mhopeth! - a'r Pwyllgor Cyfathrebu a Marchnata, lle gallaf gynnig y gwerth mwyaf.

- Annabel Lloyd, Is-Gadeirydd -



"

Rydw i wedi bod yn ymddiriedolwr ers bron i 4 blynedd a chefais fy mhenodi'n Drysorydd tua 18 mis yn ôl. Dysgais yn fuan pan gefais fy mhenodi y gall grantiau bach wneud gwahaniaeth mawr ac nid yw hyn wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn wir, mae'r amgylchedd heriol rydyn ni'n gweithredu ynddo wedi gwneud y gwaith o gefnogi ein cymunedau yng Nghymru hyd yn oed yn bwysicach.

"Rydw i'n mwynhau cyfrannu at ddisgyblaeth ariannol y sefydliad yn fy rôl fel Trysorydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chyllid. Mae cefnogi adolygiad strategaeth y sefydliad wedi bod yn ddiddorol iawn. Mae'r rhagolygon ariannol wedi bod yn rhan bwysig o'r broses hon, ochr yn ochr â gwaith y Pwyllgor Blaengynllunio a Datblygu. Fel aelod o'r pwyllgor, rydw i wedi gweld â'm llygaid fy hun y ffocws sydd wedi cael ei roi ar gryfhau haelioni a chynhyrchu incwm y sefydliad.

- Derek Howell, Trysorydd -



"

Fe ddes i'n Ymddiriedolwr am fy mod i eisiau helpu i lunio dyfodol haelioni yng Nghymru. Mae Sefydliad Cymunedol Cymru yn hanfodol i'r uchelgais honno. Fel elusen ddyngarol genedlaethol Cymru, mae'n cysylltu pobl sydd eisiau rhoi â'r elusennau a'r grwpiau cymunedol sy'n gallu cael yr effaith fwyaf ar fywydau pobl.

"Mae'r cyfle i gefnogi'r gwaith hwn yn unigryw ac yn hynod ysgogol. Mae bod yn Ymddiriedolwr yn fraint, ac rydw i'n falch o chwarae fy rhan i gefnogi mudiad sy'n galluogi cymaint o elusennau a grwpiau cymunedol ledled Cymru i wneud gwahaniaeth parhaol.

- Osian Ellis, Ymddiriedolwr -



## Beth yw’r manteision i chi

- Byddwch yn helpu Sefydliad Cymunedol Cymru i wneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl mewn gwir angen yng Nghymru
- Byddwch yn datblygu sgiliau, gwybodaeth, profiad a rhwydweithiau gwerthfawr yn y sector gwirfoddol a thu hwnt
- Byddwch yn gweithio ochr yn ochr â thîm ymroddedig ac amrywiol o ymddiriedolwyr, pob un yn ymdrechu i gynyddu effaith elusennol Sefydliad Cymunedol Cymru.
- Byddwch yn meithrin cysylltiadau ystyrlon ac yn ehangu eich rhwydwaith drwy gydweithio, digwyddiadau a thrafodaethau diddorol â phobl o’r un anian â chi

Mae dod yn ymddiriedolwr yn ffordd wych o ennill sgiliau a phrofiadau newydd ac yn ffordd ardderchog o deimlo eich bod chi’n rhoi rhywbeth yn ôl. Mae ymchwil gan ‘Get on Board’, sy’n cefnogi unigolion i ymuno â byrddau elusennau ac yn helpu elusennau i recriwtio ymddiriedolwyr yn effeithiol, wedi canfod y canlynol:

- Dywedodd 96% o ymddiriedolwyr eu bod wedi dysgu sgiliau newydd
- Roedd 73% yn fwy hyderus
- Cafodd 22% ddyrchafiad yn y gwaith oherwydd eu bod wedi dod yn ymddiriedolwr

## Disgrifiad o’r rôl

- Rydyn ni’n chwilio am unigolion brwdfrydig ac ymroddedig i ymuno â’n Bwrdd Ymddiriedolwyr a helpu i arwain gwaith Sefydliad Cymunedol Cymru. Mae hwn yn gyfle gwerth chweil i ddefnyddio eich sgiliau, eich profiad a’ch angerdd i gefnogi cymunedau lleol, mudiadau elusennol a phobl sy’n gwneud gwahaniaeth ledled y wlad.
- Fel ymddiriedolwr, fe fyddwch chi’n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau bod Sefydliad Cymunedol Cymru yn parhau i gael ei lywodraethu’n dda, yn gynaliadwy yn ariannol ac yn canolbwyntio ar gyflawni ei amcanion elusennol. P’un a oes gennych chi brofiad blaenorol fel ymddiriedolwr neu eich bod chi’n ystyried eich rôl gyntaf ar fwrdd, rydyn ni’n croesawu ceisiadau gan bobl o gefndiroedd a safbwyntiau amrywiol.

## Gwybodaeth am y rôl

- Mae ymddiriedolwyr yn gyfrifol am lywodraethu cyffredinol a chyfeiriad strategol Sefydliad Cymunedol Cymru. Gan weithio ar y cyd â chyd-ymddiriedolwyr a’r tîm gweithredol, byddwch yn helpu i sicrhau ein bod ni’n cyflawni ein cenhadaeth yn effeithiol, yn gyfrifol ac er budd gorau ein cymunedau.
- Mae hon yn rôl wirfoddol, ddi-dâl, er y gellir ad-dalu treuliau rhesymol yn unol â’n polisïau.





## Prif gyfrifoldebau

Fel Ymddiriedolwr fe fyddwch chi'n:

- Cyfrannu at arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol Sefydliad Cymunedol Cymru.
- Sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â'n dogfen lywodraethu, cyfraith elusennau a rheoliadau perthnasol eraill.
- Cynorthwyo llywodraethu da a gwneud penderfyniadau effeithiol.
- Gweithredu fel llysgennad ar ran yr elusen.
- Helpu i oruchwylio cynaliadwyedd ariannol, rheoli risg a pherfformiad sefydliadol.
- Cynnal ein gwerthoedd a'n hymrwymiad i greu daioni drwy haelioni ar gyfer cymunedau ledled Cymru.

## Ymrwymiad amser

Gofynnir i ymddiriedolwyr ymrwymo i'r canlynol:

- Pedwar cyfarfod Bwrdd y flwyddyn (a gynhelir bob chwarter).
- Pedwar cyfarfod Pwyllgor y flwyddyn (a gynhelir bob chwarter), drwy ymuno ag o leiaf un o'r pwyllgorau a ganlyn:
  1. Pwyllgor Archwilio, Cyllid a Chydymffurfiaeth
  2 .Pwyllgor Cynllunio a Datblygu
  3.Pwyllgor Grantiau
  4.Pwyllgor Cyfathrebu a Marchnata
- Mynd i ddigwyddiadau achlysurol, ymweliadau cymunedol, cyfarfodydd rhanddeiliaid a chyfleoedd rhwydweithio drwy gydol y flwyddyn.
- Paratoi a darllen papurau cyn cyfarfodydd.

Yr ymrwymiad amser disgwyliedig yw tua 10–12 diwrnod y flwyddyn, yn dibynnu ar aelodaeth y pwyllgor a phresenoldeb mewn digwyddiadau.



## Am beth rydyn ni'n chwilio

Rydyn ni'n chwilio am bobl sydd â'r nodweddion hyn:

- Yn frwd dros sicrhau bod daioni drwy haelioni yn cryfhau cymunedau lleol.
- Dangos barn gadarn a'r gallu i feddwl yn strategol.
- Gallu gweithio ar y cyd ac yn adeiladol gydag eraill.
- Wedi ymrwymo i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Yn barod i neilltuo'r amser sydd ei angen i gyflawni cyfrifoldebau'r rôl.
- Dod â phrofiad proffesiynol, gwirfoddol neu fyw a all gyfrannu at effeithiolrwydd y Bwrdd.

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir, ac yn neilltuol yn annog diddordeb gan y rhai sy'n gallu ein helpu i adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydyn ni'n gweithio gyda nhw.

## Profiad a sgiliau dymunol

Byddai profiad o un neu ragor o'r meysydd a ganlyn yn ddefnyddiol:

- Codi arian a datblygu
- Rhoi grantiau neu ddatblygu cymunedol
- Marchnata, cyfathrebu neu gysylltiadau cyhoeddus
- Cyfreithiol, llywodraethu neu adnoddau dynol
- Digidol, technoleg neu ddata
- Arweinyddiaeth yn y sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol

Byddai sgiliau Cymraeg yn cael eu gwerthfawrogi, gan ein galluogi i ymgysylltu'n fwy effeithiol â chymunedau a rhanddeiliaid Cymraeg eu hiaith.

Mae rhagor o wybodaeth am rôl ymddiriedolwyr ar gael yma: www.gov.uk/guidance/charity-trustee-whats-involved




# SUT RYDYN NI'N DEWIS YMGEISWYR

Byddwn yn adolygu eich CV a'ch llythyr eglurhaol o ran y rhinweddau a'r sgiliau rydyn ni'n chwilio amdanyn nhw, gan eich gwahodd am gyfweliad os ydyn ni'n teimlo eich bod chi'n bodloni'r gofynion hyn.

Yn y cyfweliad, byddwn hefyd yn ystyried y rhinweddau pwysig a ganlyn:

- Ymrwymiad i'n gweledigaeth a'n gwerthoedd
- Gallu bodloni'r ymrwymiadau amser ar gyfer y rôl
- Uniondeb
- Gweledigaeth strategol
- Barn dda a gweledigaeth glir
- Meddwl yn greadigol
- Parodrwydd i ddweud eich barn, wedi ei gydbwyso â pharch at safbwyntiau pobl eraill
- Derbyn dyletswyddau, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau cyfreithiol bod yn ymddiriedolwr
- Gallu gweithio'n effeithiol fel aelod o'r tîm

# SUT I YMGEISIO

Cyflwynwch CV ynghyd â llythyr eglurhaol sy'n tynnu sylw at pam yr hoffech chi fod yn Ymddiriedolwr yn Sefydliad Cymunedol Cymru, beth wnaeth eich denu i ystyried y rôl hon, a sut bydd eich profiad a'ch arbenigedd yn ychwanegu gwerth at ein gwaith, gan helpu Sefydliad Cymunedol Cymru i gyflawni ein huchelgeisiau.

Anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol, ynghyd â ffurflen monitro cyfle cyfartal wedi ei llenwi, at **recruitment@communityfoundationwales.org.uk** gyda'r llinell pwnc: Cais Recriwtio Ymddiriedolwr

Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, byddem yn eich gwahodd i gyfweliad. Gallwn helpu ymlaen llaw drwy wneud y canlynol:

- Cynnig cyfle i siarad ag aelod o'r tîm neu ymddiriedolwr cyn cyfweliad i sgwrsio am ein gwaith a sut beth yw bod yma, gan eich helpu i ddod i'n hadnabod ni'n well.
- Ymrwymo i ddeall yn llawn anghenion ychwanegol a/neu ofynion mynediad sydd gennych chi, a rhoi gofynion angenrheidiol ar waith

I drefnu galwad cyn y dyddiad cau ar gyfer trafodaeth anffurfiol ac i gael rhagor o wybodaeth am y rôl, anfonwch e-bost at Recruitment@communityfoundationwales.org.uk gyda'ch manylion cyswllt. Byddwn yn ymateb gyda slotiau amser sydd ar gael ac yn eich ffonio pan fydd hynny'n gyfleus.

Dyma'r dyddiadau a'r camau allweddol:

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: dydd Llun 28 Medi 2026
Llunio'r rhestr fer: dydd Mercher 30 Medi 2026
Cyfweliadau: dydd Gwener 9 Hydref 2026

*Byddem yn cysylltu gydag ymgeiswyr llwyddiannus yn unig.*

Sefydliad
Cymunedol Cymru
Community
Foundation Wales

Llawr 1af
Hastings House
Fitzalan Place
Caerdydd
CF24 0BL

02920 379580
sefydliadcymunedolcymru.org.uk

Rhif Elusen 1074655 | Rhif Cwmni 03670680